CYLCHLYTHYR
RHIFYN 07 • MEDI 2023

CARFAN GOFAL PLANT RhCT

SHWMAE A CHROESO

I RIFYN YR HYDREF O'N CYLCHLYTHYR.

Rydyn ni'n gobeithio eich bod chi i gyd wedi cael haf hyfryd ac yn barod am y flwyddyn i ddod.

Mae blaenoriaethau ar gyfer tymor yr hydref yn cynnwys canolbwyntio ar ardal gogledd Taf-elái i wneud rhagor o ymchwil i anghenion gofal plant rhieni a pharhau i ddenu gwarchodwyr plant newydd.

Mae cynllun gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hefyd wedi'i ddiweddaru ar gyfer blwyddyn un ac mae ar gael i'w weld yn **www.rctcbc.gov.uk/addgp**.

Rydyn ni'n awyddus i gefnogi lleoliadau a nanis heb eu cofrestru. Mae hyn yn cynnwys cymorth 1 i 1 i gofrestru gydag AGC, cyngor busnes, mynediad at hyfforddiant neu eu cyfeirio nhw at asiantaethau eraill. Cysylltwch â ni i gael cymorth neu i roi gwybod am leoliadau/nanis sydd am fod yn ein rhestr gyfathrebu.

Fel bob amser, rydyn ni wedi ymrwymo i ddenu a chefnogi gwarchodwyr plant newydd. Mae gyda ni becyn cymorth wedi'i deilwra ac rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa. Os ydych chi'n adnabod unrhyw un sydd â diddordeb mewn dod yn warchodwr plant, rhowch ein manylion ni iddyn nhw.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)

Fel y gwyddoch, mae rhai newidiadau i'r SGC.

Mae'r newidiadau yma'n cynnwys:

- Gofynion wedi'u diweddaru ar gyfer hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu
- Rhaidi gynorthwywyr gwarchod plant gwblhau modiwl IHC

Rydyn ni ar hyn o bryd yn cyrchu hyfforddiant diogelu wedi'i ddiweddaru i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ac rydyn ni'n gobeithio cynnig y lleoedd yma i chi yn fuan. Rydyn ni wedi cynyddu ein darpariaeth hyfforddiant cymorth cyntaf ac mae'r dyddiadau yma wedi'u hanfon. Cysylltwch â ni os dydych chi ddim wedi'u derbyn.

Mae gyda ni becyn ariannu i'r Cynorthwywyr Gwarchod Plant sy'n gweithredu yn RhCT. Os oes gyda chi unrhyw Gynorthwywyr sydd angen gwneud y cwrs yma, cysylltwch â'r garfan. Cofiwch fod angen i bob Cynorthwy-ydd gwblhau'r hyfforddiant yma erbyn diwedd Tachwedd 2023, felly cysylltwch â ni!

Hyfforddiant

Mae ein rhaglen hyfforddi ar gyfer tymor yr Hydref wedi cael ei hysbysebu drwy Facebook ac ar e-bost. Mae lleoedd yn llenwi'n gyflym ond mae rhai ar gael o hyd. Os ydych chi wedi colli'r amserlen, cysylltwch â ni a byddwn ni'n ei hanfon atoch eto.

Cofiwch roi gwybod i ni os dydych chi ddim yn gallu mynd i'r hyfforddiant cyn gynted â phosibl fel bod modd i ni gynnig y lle hwnnw i rywun arall. Mae'n broblem fawr o hyd pan dyw pobl ddim yn mynd i sesiynau, mae'n gwastraffu arian ac yn golygu ei bod hi ddim yn bosibl dangos bod angen yr hyfforddiant yma a ariennir gan y sector. Y llynedd, gwelsom gyfradd diffyg presenoldeb o 42% ar draws yr holl hyfforddiant a gynigwyd gan y Garfan Gofal Plant. Helpwch ni i'ch helpu chi a rhowch wybod i ni os dydych chi ddim yn gallu bod yn bresennol.

Ymgysylltu â darparwyr a rhieni

Grwpiau Rhieni a Phlant / Ti a Fi

Mae ein carfan yn ymweld â grwpiau ac mae'r amserlen ar gyfer yr Hydref bellach wedi'i chwblhau. Dewch i'n gweld neu ddweud wrth eich teuluoedd i alw heibio os oes gyda nhw ymholiad. Rydyn ni'n gallu rhoi gwybodaeth i rieni am y Cynnig Gofal Plant, sut i ddod yn warchodwr plant, neu eu cyfeirio at wasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r teulu.

Os ydych chi'n cynnal grŵp Rhieni a Phlant/Ti a Fi, cysylltwch â ni a byddwn ni'n eich ychwanegu chi at ein rhestr ni. Mae amserlen o'n hymweliadau ni'n cael ei rhannu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol bob mis.

Sesiwn Ymgysylltu â Darparwyr

Bydd y sesiwn nesaf Ddydd Iau 28 Medi, yn dechrau am 6.30pm. Bydd ar MS Teams. Mae siaradwyr gwadd yn cynnwys:

- **Carfan Materion Addysg, Cyflogaeth, a Hyfforddiant – prosiect GofaliWaith (prentisiaethau gofal plant)**
- **Helen Fisher Holland – Sut i ddod yn ddarparwr Dechrau'n Deg**
- **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) – Prosiect Gofal Plant ar Waith (gwybodaeth am sut i'w gefnogi).**

Cadwch olwg am fanylion ar sut i fewngofnodi.

Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae'r system genedlaethol newydd wedi bod yn weithredol ers rhai misoedd bellach. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w fireinio a gwneud diweddariadau. Os oes unrhyw adborth gyda chi, rhowch wybod i ni a bydd modd i ni ei anfon ymlaen.

Dydy plant a arhosodd ar yr hen system a etifeddwyd bellach ddim yn gymwys ac mae'r system honno bellach wedi'i chau. Dylai pob hawliad ar yr hen system fod wedi cael ei gyflwyno erbyn diwedd mis Awst. Cysylltwch os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am yr hen system.

Cwpl o nodiadau atgoffa ar gyfer y system genedlaethol:

- **Mae cyllid yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau. Serch hynny, mae modd i chi ei hawlio'n wythnosol.**
- **Unwaith rydyn ni'n cymeradwyo hawliadau rhieni, rhaid sefydlu cytundeb ar y system gyda chi ar gyfer yr oriau yn ystod y tymor a'r gwyliau wedi'u cytuno. Rhaid gwneud hyn erbyn y dydd Sul bob wythnos i hawlio cyllid o'r wythnos ganlynol.**
- **Rhaid i chi gymeradwyo cytundebau erbyn y dydd Iau bob wythnos er mwyn i'r cytundeb hwnnw ymddangos ar eich hawliad ar y dydd Gwener.**
- **Caiff plant fanteisio o hyd ar y cynnig yn ystod y gwyliau, hyd yn oed os ydyn nhw'n mynychu'r ysgol llawn amser (hyd at y Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed).**

Sesiynau galw heibio

Rydyn ni'n cynnig sesiynau galw heibio i rieni a darparwyr mewn llyfrgelloedd ledled RhCT. Dewch draw i'n gweld os oes gyda chi unrhyw ymholiadau ac anogwch eich rhieni i ymweld â ni os ydyn nhw angen unrhyw gymorth gyda'u ceisiadau neu unrhyw agwedd o'r Cynnig.

Llyfrgell Pont-y-clun
Heol-y-Felin, Pont-y-clun, CF72 9BE
Dydd Mawrth cyntaf bob mis | 2pm-6pm

Llyfrgell Treorci
Station Road, Treorci, CF42 6NN
Ail ddydd Mawrth bob mis | 2pm-6pm

Llyfrgell Aberdâr
Y Stryd Las, Aberdâr, CF44 7AG
Trydydd ddydd Mawrth bob mis | 2pm-6pm

Llyfrgell Pontypridd
1 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH
Pedwerydd ddydd Mawrth bob mis | 2pm-6pm

Swyddfeydd y Cyngor
Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ
Bob dydd Gwener 9am–1pm. Rhaid trefnu apwyntiad (ffoniwch 03000 628628)



Hyrwyddwch y cynnig i rieni newydd a chysylltu â ni os hoffech chi unrhyw ddeunydd hyrwyddo i arddangos yn eich lleoliadau neu ei ddosbarthu i rieni.

Bore Coffi

Cynhaliwyd ein bore coffi cyntaf ym mis Mehefin yn ardal Cwm Taf. Er doedd dim llawer yn bresennol, roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

Cynhelir y bore coffi nesaf ym

Mhlaza'r Porth, y Porth Ddydd Sadwrn 21 Hydref, 10am-12pm

Cofiwch, mae'r adran Mynediad a Chynhwysiant yn cynnal rhaglen dreigl o hyfforddiant ADY ar gyfer darparwyr. Mae hefyd yn cynnig fforwm i Gydlynwyr ADY y Blynyddoedd Cynnar sy'n rhoi cyfle i ymarferwyr ofyn cwestiynau a rhannu arfer dda gyda'u cyfoedion mewn amgylchedd cyfeillgar, cefnogol.

Mae gwybodaeth am y rhain yn cael ei rhannu gyda chi drwy ein tudalen Facebook ac mewn e-byst. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â ni neu anfonwch e-bost at y gwasanaeth yn uniongyrchol ar **CynaMyn@rctcbc.gov.uk**.

Ehangu Gwasanaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg

Mae ehangu graddol gofal plant Dechrau'n Deg yn parhau. Ar hyn o bryd mae 60 o leoliadau wedi'u cymeradwyo, gyda 21 ohonyn nhw'n cynnig lleoedd cyfrwng Cymraeg. Os ydych chi'n ddarparwr gofal plant neu'n warchodwr plant, gallwch chi wneud cais i ymuno drwy gofrestru ar eDendroCymru. Mynegwch ddiddordeb mewn **ITT–92447** ac ateb a chyflwyno'r cwestiynau. Os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Helen Fisher-Holland** ar **07824 496497**.

Materion derbyn disgyblion

Dyddiadau Pwysig isod. Rhannwch nhw gyda'ch rhieni ac anogwch nhw i wneud cais erbyn y dyddiad cau!

- ***Lleoedd cyn meithrin i ddechrau ym mis Ionawr 2024***
  Mae ceisiadau ar agor 1-29 Medi 2023, bydd llythyrau penderfyniad yn cael eu hanfon erbyn 10 Tachwedd 2023
- ***Lleoedd Meithrin i ddechrau ym mis Medi 2024***
  Bydd ceisiadau ar agor 1 Medi-11 Tachwedd 2023, bydd llythyrau penderfyniad yn cael eu hanfon erbyn 16 Ebrill 2024

Dylai rhieni wneud cais ar-lein yn **www.rctcbc.gov.uk/derbyndisgyblion**.

Rhowch wybod i ni os hoffech chi daflenni derbyn i ysgolion i'w dosbarthu i rieni.



Gwneud cais am le mewn ysgol... mor hawdd ag ABC

Rhaid gwneud cais ffurfiol am le mewn Dosbarth Meithrin, Dosbarth Derbyn, Ysgol Uwchradd, neu i drosglwyddo o Ysgol y Babanod i'r Ysgol Iau erbyn Medi 2023 (ar gyfer lle ym mis Medi 2024)

Gwnewch gais ar-lein:
https://schooladmissions.rhondda-cynon-taff.gov.uk/

Mae modd i chi hefyd gysylltu â'r Garfan Derbyn Disgyblion:
Ffôn: 01443 281111 ebost: derbyndisgyblion@rctcbc.gov.uk

1 Dyddiadau pwysig i'w cofio

Gwneud cais am le mewn:	Y dyddiad cyntaf ar gyfer ceisiadau yw 2023	Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau yw	Anfon llythyrau penderfyniad
Ysgol Uwchradd (Blwyddyn 7)	1 Medi 2023	13 Hydref 2023	1 Mawrth 2024
Ysgol Gynradd, Blwyddyn 3 (o Ysgol y Babanod i'r Ysgol Iau)	1 Medi 2023	10 Tachwedd 2023	16 Ebrill 2024
Ysgol Gynradd - Dosbarth Derbyn (h.y. 4 oed cyn mis Medi 2024)	1 Medi 2023	10 Tachwedd 2023	16 Ebrill 2024
Dosbarth Meithrin mewn Ysgol Gynradd (h.y. 3 oed cyn 1 Medi 2024)	1 Medi 2023	10 Tachwedd 2023	16 Ebrill 2024
Dosbarth Cyn-feithrin o Ionawr 2024 (Tymor y Gwanwyn) Pen-blwydd yn 3 oed rhwng: 1 Medi 2023 a 31 Rhagfyr 2023	1 Medi 2023	29 Medi 2023	10 Tachwedd 2023
Dosbarth Cyn-feithrin o Ebrill 2024 (Tymor yr Haf) Pen-blwydd yn 3 oed rhwng: 1 Ionawr 2024 a 31 Mawrth 2024	1 Ionawr 2024	9 Chwefror 2024	15 Mawrth 2024

Os nad oes cyfrifiadur gennych chi ac rydych chi eisiau gwneud cais ar-lein am le mewn ysgol, mae modd i chi ddefnyddio'r rhyngrwyd yn rhad am ddim yn unrhyw un o Lyfrgelloedd neu Ganolfannau i BobUn Cyngor RhCT.

Gweithdy Dewisiadau Gyrfa mewn Gofal Plant

Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â Charfan Datblygu'r Gweithlu rhanbarthol RhCT i gynnig gweithdy am wahanol yrfaoedd ym maes gofal plant a sut i ddechrau eich taith tuag at yrfa ym maes gofal plant. Bydd y gweithdy yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg, Cymunedau am Waith, Coleg y Cymoedd, Pacey ac NDNA.

Byddwn ni'n ffilmio fideos hyrwyddo ar gyfer y gweithdy, gan ddangos blas o wahanol fathau o ofal plant. Rhowch wybod i ni os hoffech chi i'ch lleoliad ymddangos yn un o'r rhain.

Bydd rhagor o wybodaeth yn dod allan yn fuan a byddwn ni'n gwerthfawrogi eich cymorth i rannu'r newyddion!

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Cofiwch fod ein holl e-byst yn cael eu hanfon trwy ddosbarthiad y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd felly cadwch eich cyfrif ar DEWIS yn gyfredol ac yn weithredol, neu byddwch chi'n colli allan ar wybodaeth bwysig oddi wrthon ni. Byddwch chi hefyd yn colli cyfle i hysbysebu **AM DDIM** i rieni sy'n defnyddio cronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i chwilio am ofal plant yn eu hardal leol nhw.

I gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif chi, dilynwch y ddolen yma: **https://www.dewis.cymru/secure/login.aspx**.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch chi gyda'ch cyfrif DEWIS, anfonwch e-bost at: **GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk**.

Facebook

Cofiwch fod ein tudalen Facebook breifat yn ffordd wych o weld newyddion diweddaraf y garfan a phartneriaid eraill.

I ymuno, ewch i...

https://www.facebook.com/groups/childcareteamRCT neu chwiliwch am **'RCT Childcare Team'** yn y cyfleuster chwilio ar Facebook.

Cysylltwch â ni...

Carfan Datblygu Gofal Plant:

- **01443 570048**
- **www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant**
- **carfangofalplant@rctcbc.gov.uk**
- **RCT Childcare Team**

Carfan y Cynnig Gofal Plant:

- **03000 628628**
- **www.rctcbc.gov.uk/cynniggofalplant**
- **DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk**

Os dydych chi ddim eisiau derbyn y cylchlythyrau yma rhagor, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni eich tynnu chi oddi ar ein rhestr ddosbarthu.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg